

Interniaeth â Thâl

Artist Cyswllt WNO

Cyfnod Penodol Awst 2020 - Mehefin 2021

Ystod cyflog:	£19,000 i £22,000 y flwyddyn, pro rata (yn ddibynnol ar brofiad a chyd-destun y cytundeb hyfforddiant sydd i'w gynnig)
Dyddiad cau ar gyfer Ceisiadau:	Dydd Llun 18 Tachwedd 2019 (12 pm)
Clyweliadau a Chyfweliadau anffurfiol:	Clyweliadau cyntaf: 28 a 29 Tachwedd yng Nghaerdydd 2 a 3 Rhagfyr ym Manceinion 9 a 10 Rhagfyr yn Birmingham 11 a 12 Rhagfyr yn Llundain 13 Rhagfyr ym Mryste/Caerfaddon Ail glyweliadau: Ionawr/Chwefror 2020 yng Nghaerdydd
Dyddiad Cychwyn:	3 Awst 2020
Dyddiad gorffen:	Tua Mehefin 2021; yn ddibynnol ar gynnwys y cytundeb

Mae rhaglen Artist Cyswllt WNO yn anelu at annog cantorion o bob cefndir i gymryd rhan ac yn ddiolchgar iawn i Fwrsariaeth Shirley a Rolf Olsen a chefnogwyr Bwrsariaethau eraill am eu cefnogaeth sylweddol yn ein galluogi i lwyddo hyn.

Sut i wneud Cais

Anfonwch CV gyda manylion eich holl hyfforddiant perfformio perthnasol a chyflogaeth bresennol/blaenorol. Ynghyd â llythyr eglurhaol yn egluro sut, yn eich tyb chi, y byddech yn elwa o fod yn artist cyswllt WNO, pam y cynllun a'r rhaglen hyfforddi broffesiynol cysylltiedig hwn, a sut byddai o fudd i'ch llwybr gyrfa i'r diwydiant perfformio yn y dyfodol.

Cyflwynwch CVs, ffurflenni a llythyrau egluro i recruitment@wno.org.uk neu ei phostio i'r Adran Adnoddau Dynol, Opera Cenedlaethol Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL.

Ein cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw dod â phŵer, drama ac emosiwn amrwd opera i gynulleidfa mor eang â phosibl mewn perfformiadau wedi eu nodweddu gan ymchwil digyfaddawd am ansawdd artistig.

Fel cwmni cenedlaethol gyda statws rhyngwladol, rydym wrth galon creu cerddoriaeth yng Nghymru a chwaraewn rôl werthfawr yn y cymunedau a wasanaethwn yn Lloegr. Gweithiwn gyda phartneriaid i ddarganfod a meithrin talent operatig ifanc, a darparwn y man cychwyn i yrfaeodd rhyngwladol.

Mae teithio yn hanfodol i ni ac ymdrechwn i gyflwyno gwaith o'r ansawdd uchaf ar draws ein rhaglen artistig, gan gynnig adloniant ac ysbrydoliaeth i gynulleidfaoedd yn ein hoperau a chyngherddau a darparwn brofiadau trawsnewidiol trwy ein gwaith ieuenctid a chymuned.

Gan adeiladu ar ein hanes dros 70 mlynedd a'n gwreiddiau yng nghymunedau De Cymru, anelwn at ddangos i genedlaethau'r dyfodol bod opera yn ffurf werthfawr, berthnasol a chyffredinol o gelfyddyd.

Mwy na unrhyw gwmni arall, mae WNO yn agor drysau opera i bawb.

Ein Gweledigaeth

Credwn ym mhŵer opera i drawsnewid bywydau.

Mae ein gwerthoedd yn:

Arbenigol Mae gan ein pobl y ddawn, yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni ar bob lefel i'r safonau ansawdd uchaf

Cydweithio caiff ein gwaith ei greu gan bobl yn dod ynghyd ac yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni amcanion cyffredin yn llwyddiannus

Craff rydym yn hyblyg ac yn agored ein meddwl, yn adnabod cyfleoedd newydd ac yn defnyddio ein hadnoddau yn ddoeth i wneud yn fawr o'n potensial

Arloesol nid ydym yn ofni herio ein hunain yn greadigol a phroffesiynol ac rydym yn frwd wrth annog syniadau newydd

Cynhwysol rydym yn croesawu diwylliant amrywiol yn y gweithle lle caiff pobl eu gwerthfawrogi. Rydym yn parchu ac yn cydnabod gwahaniaethau ein gilydd mewn amgylchedd lle gall pawb ffynnu

Ein Nodau

Nod 1: Artistig

Agor opera trwy gyflwyniad, cynnwys, dyfeisgarwch a hygyrchedd

Nod 2: Incwm

Datgloi ein cyfalaf creadigol ac artistig i dyfu ein ffrydiau incwm

Nod 3: Cynulleidfa

Tyfu ac amrywio ein cynulleidfaoedd wrth greu cynnwrf, cynyddu cyfranogiad a dod yn rhywbeth na ddylid ei golli

Nod 4: Perthnasedd

Cynyddu ein perthnasedd ac ysbrydoli perchnogaeth ledled Cymru, Lloegr ac yn rhyngwladol

Mae'r egni sy'n gyrru'r cwmni heddiw wedi ei wreiddio yn ei ffurfio yn y 1940au. Yn 1943, sefydlwyd WNO gan grŵp o bobl o bob rhan o dde Cymru yn cynnwys glowyr, athrawon a meddygon. Roeddent yn awyddus i ffurfio Cwmni opera oedd yn cydweddu ag enw da cyfoethog Cymru fel 'gwlad y gan'. Digwyddodd yr ymarferion cyntaf uwchben garej yng Nghaerdydd ac roedd eu perfformiad cyntaf ym

mis Ebrill 1946 gyda'r cyflwyniad dwbl o Cavalleria Rusticana a Pagliacci. O'r dyddiau cynnar hynny hyd at heddiw, mae WNO wedi denu rhai o gantorion opera gorau'r byd, ac yn wir wedi cynnig eu camau cyntaf at fri rhyngwladol i lawer o gantorion ifanc.

Yn dilyn ei rôl fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Seattle Opera ers 2014, ymunodd Aidan Lang ag WNO i arwain y Cwmni fel Rheolwr Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2019.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru wedi cael ei arwain o'r pydew gan gyfres o Gyfarwyddwyr Cerddorol gwych ac wedi gweithio gyda llawer o gyfarwyddwyr mwyaf dylanwadol y ffurf hon o gelfyddyd; traddodiadau sy'n parhau hyd heddiw. Ymunodd Tomáš Hanus ag WNO fel Cyfarwyddwr Cerddoriaeth ym mis Awst 2016. Wrth ei galon eistedda dau ensemble llawn amser y Cwmni, y Corws o 40 a Cherddorfa o 55. Mae strwythur cyllido'r Cwmni yn unigryw ymhlith sefydliadau celfyddydol mawr yn y DU gan ei fod yn derbyn ei gyllid craidd oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â Chyngor Celfyddydau Lloegr. Mae'r Cwmni yn perfformio yn ei gartref - Canolfan Mileniwm Cymru Caerdydd sy'n fan eithaf y grefft ac yn teithio Cymru a Lloegr gan berfformio i dros 120,000 o bobl bob blwyddyn.

Heddiw mae WNO yn ensemble o gerddorion, artistiaid, crefftwyr, technegwyr a gweinyddwyr angerddol ac ymrwymedig. Mae'n cyflogi dros 250 o bobl ac mae ganddo drosiant o £18m. Mae WNO mewn sefyllfa gref i gychwyn ar ei bennod nesaf ar ei daith gyffrous.

Ynglŷn â Chaerdydd – Cartref Opera Cenedlaethol Cymru

Mae Caerdydd yn ddinas sy'n falch o'i diwylliant, hanes ac iaith. Yn brifddinas Cymru ers 1955, mae Caerdydd wedi cofleidio'r rôl yn egnïol, gan godi yn y mileniwm newydd fel un o ganolfannau dinesig blaenaf Prydain.

Mae Caerdydd yn ddinas gryno; castell hynafol i'r gogledd o'i chanol; glan dŵr ffyniannus ym Mae Caerdydd i'r de; mae Caerdydd yn cyfuno hen hanes, cyffro chwaraeon, datblygiad modern iawn, diwylliant a gweithgareddau eclecticig. Mae Caerdydd yn brifddinas gyfeillgar, amrywiol a chyffrous, dim ond 2 awr ar y trê'n o Lundain.

Mae Caerdydd yn cynnig amrywiaeth syfrdanol o atyniadau unigryw, adloniant o'r safon uchaf a siopa o ansawdd gyda gwahaniaeth ac mae'n hawdd i'w harchwilio wrth gerdded gydag atyniadau fel yr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Castell Caerdydd mawreddog a Stadiwm Principality trawiadol, oll o fewn Canol y Ddinas, a Bae Caerdydd yn daith fer i ffwrdd.

Mae Caerdydd hefyd yn hyb ffyniannus i'r celfyddydau a'r cyfryngau yng Nghymru ac yn rhyngwladol ac i ddiwydiant ffilm a theledu llewyrchus. Mae llawer o raglenni prif lif fel Torchwood, Merlin, Gavin and Stacey, Casualty, Sherlock, Upstairs Downstairs, cyfres dramâu The Hollow Crown Shakespeare a Pobol y Cwm oll yn cael eu cynhyrchu gan BBC Wales a S4C, gyda Doctor Who yn denu dilynwyr o bedwar ban byd. Mae Caerdydd hefyd yn gartref i ddigwyddiadau cerddorol gan gynnwys cystadleuaeth flynyddol fawr ei bri *Canwr y Byd Caerdydd* sy'n denu cynulleidfa ryngwladol enfawr o ddilynwyr i'r ddinas yn ogystal â llawer o fyfyrwyr celfyddydau a chyfryngau sy'n dewis astudio yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd, mae cartref Astudiaethau Cyfryngau a Diwylliannol ym Mhrifysgol Caerdydd, aelod o'r Grŵp Russell clodfawr o brifysgolion blaenllaw ac Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd ym Mhrifysgol De Cymru.

Ochr yn ochr â phensaerniaeth ddyfeisgar Canol Dinas Caerdydd a'i hadeiladau hanesyddol, mae Bae Caerdydd yn cynnig cymysgedd gwych o fwyta, siopa, gweithgareddau, golygfeydd glan y dŵr, celfyddydau ac adloniant i bawb. Wrth ei chalon mae Canolfan Mileniwm Cymru, cartref Opera Cenedlaethol Cymru.



Swydd Ddisgrifiad

Rôl: Artist Cyswllt WNO

Yn atebol i: Pennaeth Rheoli Artistig

Prif ddiben y swydd:

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn cynnig cyfle i **2 gantor** ymuno â'r cwmni fel 'Artist Cyswllt WNO'. Mae hwn yn hyfforddiant dros flwyddyn, llawn amser, rhwng mis Awst 2020 a mis Mehefin 2021.

Nid yw'r rhaglen yn chwilio am unrhyw fathau penodol o lais. Byddai'n gyfle perffaith i raddedigion presennol a diweddar sydd wedi arbenigo mewn unrhyw faes perfformio neu astudiaethau lleisiol ac sydd eisiau datblygu eu sgiliau perfformio a gyrfa o fewn cwmni opera.

Mae rhaglen Artist Cyswllt WNO yn anelu at annog cantorion o bob cefndir i gymryd rhan ac yn ddiolchgar iawn i Fwrsariaeth Shirley a Rolf Olsen a chefnogwyr Bwrsariaethau eraill am eu cefnogaeth sylweddol yn ein galluogi i lwyddo hyn.

Prif atebolrwydd:

Bydd clyweliadau yn cael eu cynnig i unrhyw un sy'n bodloni'r mini prawf canlynol:

- Rhwng 18 a 32 mlwydd oed
- Wedi cael hyfforddiant am o leiaf 1 blwyddyn at lefel Addysg Uwch, Coleg neu Conservatoire
- Profiad opera perthnasol fel aelod o Gôr neu Unigol ar lefel Coleg a/neu broffesiynol
- Preswlydd y DU a/neu â hawl i weithio o fewn y DU

Bydd yr hyfforddiant yn cynnig rhaglen ddatblygu broffesiynol a dysgu wedi ei strwythuro, ynghyd â chyfle i berfformio rolau bach a llanw gyda WNO. Bydd hyfforddiant lleisiol ac iaith, gwersi canu a gweithdai gyda gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant yn cael eu trefnu er mwyn sicrhau bod hyfforddeion yn cael mynediad at y lefel uchaf o gyfleoedd perfformiad diwydiant a datblygiad proffesiynol.

Prif amcanion y rhaglen yw:

- Rhoi cyfle i Artistiaid ifanc berfformio ar lwyfan cenedlaethol (o fewn cynyrchiadau teithiol a phrif lwyfan WNO)
- Y cyfle i ddysgu ac astudio rolau mawr, wedi eu cefnogi fan staff cerddoriaeth WNO, fel rhan o gast llanw
- Cynnig lluo o gyfleoedd perfformio ychwanegol i Artistiaid ifanc, i ehangu eu profiad o bob llwyfan perfformio, gan gynnwys:
 - Ymgymryd â phrosiectau leuenctid a Chymuned WNO i hogi crefft perfformiad mewn cyd-destunau gwahanol; fel rhan o weithdai / fel animeiddwyr, ymweliadau ag ysgolion, prosiectau digidol ayyb.
 - Ymgymryd â chyngherddau ar raddfa fawr (gan gynnwys cyngherddau yn Neuadd Dewi Sant a chyngherddau symffonig llawn)
 - Ymgymryd â Datblygu Cyngherddau, Marchnata a Digwyddiadau'r Wasg
- I gynnig rhaglen datblygiad proffesiynol a hyfforddiant wedi ei strwythuro ochr yn ochr â'r rôl a chyfleoedd llanw, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - Hyfforddiant iaith rheolaidd - sesiynau misol mewn Eidaleg, Ffrangeg ac Almaeneg
 - Sesiwn hyfforddiant bob pythefnos gydag aelod o Staff Gerddoriaeth WNO
 - Gwersi canu misol, gydag athro y mae'r Artist a staff WNO wedi cytuno arno ar y cyd
 - Hyfforddiant ar rolau penodol gan weithwyr proffesiynol o'r diwydiant ac Artistiaid gwadd
 - Gweithdai crefft llwyfan gan Gyfarwyddwyr a Choreograffwyr gwadd
 - Hyfforddiant i baratoi at glyweliadau gan bwyllgor castio WNO
 - Hyfforddiant datblygu proffesiynol (sut i 'farchnata' eich hun ayyb. fel Artist)

Y soprano fyd-enwog o Gymru, Rebecca Evans, yw Llysgennad y rhaglen, a bydd yn mentora'r ddau gantor drwy gydol y flwyddyn. Bydd y rhaglen yn cael ei monitro a'i chefnogi gan Bennaeth Rheoli Artistig a Phennaeth Cerddoriaeth WNO. Ar ddechrau'r rhaglen, bydd pob cantor ifanc yn dylunio cynllun datblygu mewn ymgynghoriad â'r aelodau hyn o staff. Bydd y cynlluniau datblygu hyn yn cael eu monitro drwy gydol y flwyddyn, ac yn cael eu diweddarau a'u diwygio yn ôl yr angen. Ar ddiwedd y flwyddyn, bydd gwerthusiad ac adroddiad manwl yn cael ei wneud o'r amcanion a lwyddwyd a'r amcanion dysgu / hyfforddi y cafodd eu bodloni.

Clyweliadau Cyntaf

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i'r clyweliadau cyntaf mewn dewis o bum dinas ledled y DU. Byddwch yn cael eich dyrannu i'r ddinas agosaf atoch chi'n awtomatig.

- Bydd y clyweliad yn parhau am 10 munud, ac yn cael ei ddilyn â sgwrs anffurfiol 5 munud o hyd gyda'r panel.
- Bydd y panel yn cynnwys Pennaeth Rheoli Artistig WNO a/neu Swyddog Castio WNO, Pennaeth Cerddoriaeth WNO a/neu Bennaeth Cynorthwyol Cerddoriaeth a chyn Artist Cyswllt WNO sydd nawr yn gweithio ar lwyfan opera proffesiynol.
- Bydd aelod o Staff Cerddoriaeth WNO yn cyfeilio.

Cynhelir y clyweliadau yn:

- Caerdydd (28 a 29 Tachwedd)
- Manceinion (2 a 3 Rhagfyr)
- Birmingham (9 a 10 Rhagfyr)
- Llundain (11 a 12 Rhagfyr)
- Bryste/Caerfaddon (13 Rhagfyr)

Bydd angen ichi baratoi o leiaf tair cân/aria sy'n cyferbynnu gyda chi ar gyfer eich clyweliad cyntaf. Bydd gofyn ichi ganu dwy o'r rhain, un o'ch deis chi, a bydd y panel yn dewis y llall. Dewiswch ganeuon/ariâu sydd o hyd priodol, gan mai ond 10 munud o hyd i'w clyweliad.

Ail Glyweliadau

Bydd Artistiaid sydd wedi eu dewis o'r clyweliadau cyntaf yn cael eu gwahodd i ail glyweliad.

- Bydd yr ail glyweliadau yn cael eu cynnal yng nghartref WNO, Canolfan Mileniwm Cymru, yng Nghaerdydd ym mis Ionawr/Chwefror 2020.
- Bydd panel yr ail glyweliadau'r un panel â'r clyweliadau cyntaf ond bydd Cyfarwyddwr Cyffredinol WNO, Aidan Lang a Llysgennad Artist Cyswllt WNO, y Soprano Rebecca Evans, yn ymuno â nhw.
- Bydd aelod o Staff Cerddoriaeth WNO yn cyfeilio.
- Bydd WNO yn ad-dalu'r costau teithio i'r holl ymgeiswyr a fydd yn cael eu dewis ar gyfer yr ail glyweliadau.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod ar gael ar gyfer yr ail glyweliadau, ni fydd dyddiadau amgen yn cael eu cynnig.

Iechyd a Diogelwch

Bydd gan ddeilydd y swydd gyfrifoldeb am faterion iechyd a Diogelwch ar lefel 6 (gweler y manylion amgaaedig).

Manyleb Person

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gallu arddangos y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad canlynol:

- Rhwng 18 a 32 mlwydd oed
- Wedi cael hyfforddiant am o leiaf 1 blwyddyn at lefel Addysg Uwch, Coleg neu Conservatoire
- Profiad opera perthnasol fel aelod o Gôr neu Unigol ar lefel Coleg a/neu broffesiynol
- Preswlydd y DU a/neu â hawl i weithio o fewn y DU

Buddion i Weithwyr

Pensiwn

Mae'r holl weithwyr yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn Rhanddeiliaid WNO (y "Cynllun") neu gynllun pensiwn cofrestredig arall tebyg y gall y Cwmni ei sefydlu fel Cynllun Pensiwn Gweithle Cymwys dri mis ar ôl iddynt ymuno â'r Cwmni, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwyster penodol.

Mamolaeth/ Tadolaeth / Mabwysiadu

Rydym yn cynnig cynllun hael sy'n rhoi taliadau ar ben y ddarpariaeth statudol.

Hamdden Gorfforaethol - Aelodaeth Gampfa

Mae'r holl weithwyr yn gymwys i gael Cerdyn Corfforaethol Caerdydd Actif gan Gyngor Dinas Caerdydd sy'n cynnig gostyngiad o 25% ac sydd yn cael ei dderbyn mewn amrywiol gyfleusterau hamdden ledled Caerdydd.

Gostyngiadau

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnig gostyngiadau i'r preswylwyr mewn siopau dethol yn yr adeilad ac mewn bwytai dethol o amgylch Bae Caerdydd wrth gyflwyno cerdyn adnabod.

Gostyngiad ar Docynnau Sinema Cineworld

Cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol i gael cod mynediad.

Gostyngiad Parcio i Staff gyda Q Park

Mae gennym drefniant o bris gostyngol corfforaethol gyda Q Park, Stryd Pierhead (gyferbyn â WMC).

Prif Delerau ac Amodau

- Cyflog £19,000 i £22,000 pro rata, y flwyddyn, wedi ei dalu'n fisol drwy drosglwyddiad credyd i fanc
- Mae cynnig swydd yn amodol ar dderbyn dau eirda y mae'r cwmni'n eu barnu i fod yn foddhaol.
- Mae'r swydd yn amodol ar gyfnod prawf o dri mis.
- Gellir terfynu'r ymrwymiad yn ystod y cyfnod prawf gyda mis o rybudd gan y naill ochr neu'r llall. I derfynu wedi hynny, rhaid i'r naill ochr neu'r llall roi tri mis o rybudd.
- Bydd yr oriau gwaith yn unol â Chytundeb Ecwiti / Theatr y DU ar gyfer Artistiaid Gwadd. Gall ymarferion, gwersi a sesiynau hyfforddi eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, gydag uchafswm o 11 sesiwn yr wythnos (oni bai mewn argyfwng neu yn ôl disgrisiwn yr Artist). Gall fod gofyn ichi weithio ar ddydd Sul os yw perfformiad y mae'r hyfforddwr yn perfformio ynddo yn cael ei gynnal ar ddydd Sul.
- Mae gennych hawl i 28 diwrnod o wyliau pob blwyddyn gwyliau llawn (gan gynnwys holl wyliau cyhoeddus Cymru a Lloegr).
- Mae'r budd-dal salwch yn ystod yr interniaeth yw'r lleiafswm statudol.
- Mae'r Cwmni'n cynnig cynllun pensiwn cyfrannol.

Iechyd a Diogelwch

Cyfrifoldebau Unigol

Yr holl weithwyr

(Lefel 6)

Pob gweithiwr, gan gynnwys rheolwyr.

Cyfrifoldebau

Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am:

Ddilyn a gweithredu rheolau a systemau sy'n deillio o'r Polisi Iechyd a Diogelwch a'r trefniadau ar gyfer ei weithredu.

Cymryd gofal rhesymol dros eu hiechyd a'u diogelwch nhw, eu cyd-weithwyr ac eraill a allai gael eu heffeithio naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod yn y gwaith.

Adrodd am beryglon a diffygion gwirioneddol neu bosib i'r Rheolwr yn brydlon.

Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant iechyd a diogelwch y mae'r Cwmni yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cwmni a deddfwriaeth gyfredol.

Gwybod y camau cywir i'w cymryd os yw damwain, tân neu argyfwng arall yn digwydd.

Cydweithio gyda rheolwyr a gweithwyr eraill wrth fodloni gofynion statudol.

Ddim yn ymyrryd gyda neu'n camddefnyddio unrhyw beth sydd wedi'i ddarparu i ddiogelu eu hiechyd, diogelwch neu eu lles sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a defnyddio unrhyw beiriannau, offer, sylwedd neu ddyfais ddiogelwch yn unol ag unrhyw hyfforddiant a chyfarwyddyd.